Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Cynorthwy-ydd Ymchwil ar gyfer Cynnal Ymchwil i Algâu**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg** |
| **Adran/Pwnc:** | **Y Gwyddorau Biolegol** |
| **Cyflog:** | **Gradd 7: £34,610-£38,784 y flwyddyn pro rata** |
| **Oriau gwaith:** | **Amser llawn** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Swydd am gyfnod penodol yw hon, rhwng 01/10/26 a 31/01/2027** |
| **Lleoliad:** | **Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton** |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddyletswyddau** | 1. Ymgymryd â gweithgareddau ymchwil sy'n gysylltiedig â'r prosiect *"Accelerating Commercialisation Readiness of Phycobiliprotein Production in Arthrospira platensis Using High-Intensity LED Pigment Enhancement Set Up".*<br>2. Trin, cynnal a monitro meithriniadau micro-algâu a syanobacteriol dan amodau labordy, peilot, ac ar raddfa ddiwydiannol.<br>3. Gweithredu a chynnal systemau ffotobioadweithydd ac offer labordy cysylltiedig.<br>4. Cynnal y gwaith o gynaeafu, echdynnu, puro, a dadansoddi proteinau-ffycobili a chyfansoddion gwerth uchel eraill. |
| | 5. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, meddwl am syniadau newydd a chyflwyno canfyddiadau.<br>6. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.<br>7. Bod yn hunangymhellol a defnyddio menter bersonol, gan geisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen.<br>8. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym maes diwydiant/masnach, mewn sefydliadau cyhoeddus, ysbytai ac yn y byd academaidd.<br>9. Cyfrannu at faterion trefniadol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>10. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes, o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiad ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>11. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau pan fo angen, gan achub ar y cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.<br>12. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddarparu tystiolaeth, nodi anghenion datblygu, gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran cyfnod prawf, Adolygiad Datblygiad Proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi.<br>13. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>14. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 15. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>16. Ymgymryd â'r rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>17. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| | 18. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Gradd (BSc neu MSc) mewn Biotechnoleg, Gwyddorau Biolegol, Microbioleg, Biocemeg, Cemeg, Peirianneg Fiocemegol, neu bwnc cysylltiedig neu brofiad perthnasol cyfwerth.<br>2. Tystiolaeth o’r gallu i gymryd rhan weithredol mewn ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn arbennig ar gyfer cylchgronau a adolygir a chyfrannu atynt.<br>3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect.<br>4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil.<br>5. Profiad o drin a chynnal micro-algâu, syanobacteria, neu feithriniadau microbaidd eraill.<br>6. Profiad o weithredu bioadweithyddion neu ffotobioadweithyddion ar raddfa labordy neu raddfa beilot.<br>7. Gwybodaeth am dechnegau cynaeafu, crynodiad, echdynnu a phuro biomas algaidd.<br>8. Profiad o ddefnyddio dulliau dadansoddi ar gyfer nodweddu biomas, meintioli pigmentau, dadansoddi protein neu brofion biocemegol perthynol.<br>9. Gallu casglu, dadansoddi a dehongli data arbrofion a chyflwyno canlyniadau mewn adroddiadau technegol.<br>10. Profiad o weithio mewn amgylchedd ymchwil ryngddisgyblaethol a chydweithio â phartneriaid allanol.<br>11. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br>12. PhD (wedi'i chwblhau neu ar fin ei chwblhau) mewn Biotechnoleg Algâu, Biotechnoleg, Microbioleg, Biocemeg, Gwyddorau Biolegol, Peirianneg Fiobrosesu, neu ddisgyblaeth â chysylltiad agos.<br>13. Byddai hyfforddiant arbenigol ychwanegol mewn trin algâu, biobrosesu'r dyfodol, cemeg ddadansoddol, neu fiotechnoleg ddiwydiannol yn fanteisiol.<br>14. Mae tystiolaeth o gyhoeddiadau gwyddonol, cyflwyniadau mewn cynadleddau a chanlyniadau ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant sy'n ymwneud â biotechnoleg neu ymchwil i algâu yn ddymunol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – ‘a little’ - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we’r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |

ECU Gender Charter Athena SWAN Silver Award
Stonewall Cymru Diversity Champion
HR Excellence in Research